Hawdd ei ddeall

# Arolwg o Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

## Arian i helpu pobl anabl ymgeisio mewn etholiad yng Nghymru



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan y tîm ymchwil **Angharad Davies**, **Alice Dawkins**, a **Matt Lewis-Richards** ar gyfer **Llywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Arolwg o Gynllun Peilot ar gyfer Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig**'.

**Mehefin 2023**

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 32**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** Nerys.Owens@gov.wales

**Cyfeiriad:** Gwasanaethau Gwybodaeth a
Dadansoddiad (KAS)
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.
**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247**.

# Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ........ 2

Cyflwyniad ........ 4

Ynglŷn â'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ........ 6

Ynglŷn â'r arolwg ........ 9

Y pethau y daethon ni i wybod ........ 11

Argymhellion allweddol ........ 29

Geiriau anodd ........ 32

# Cyflwyniad



Roedden arnon ni eisiau gweld beth roedd pobl yn feddwl am y **Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig**.



Mae'r **Gronfa Myndiad i Swyddi Etholedig** yn arian i helpu pobl anabl wneud cais am gael eu hethol mewn **etholiad**.



Mewn **etholiad** mae pobl yn pleidleisio am y bobl y mae arnyn nhw eu heisiau i'w cynrychioli. Gallai fod ar gyfer y Senedd neu eich cyngor lleol.



Mae'r **Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig** ar gyfer talu am bethau sy'n helpu pobl anabl gael cyfle cyfartal. Er enghraifft, offer arbennig a chyfrifiaduron.



Fe wnaethon ni siarad â:

- **Rhanddeiliaid**
- Aelodau o'r **Bwrdd Gwneud Penderfyniadau**



- **Ymgeiswyr**

Mae **rhanddeiliad** yn berson sydd â diddordeb mewn rhywbeth neu sydd â chysylltiad â'r peth.



Mae **ymgeisydd** yn berson sy'n gofyn i bobl bleidleisio drosto mewn **etholiad**.



Hawdd ei ddeall

Arolwg o Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

Arian i helpu pobl anabl ymgeisio mewn etholiad yng Nghymru

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan y tîm ymchwil **Angharad Davies**, **Alice Dawkins**, a **Matt Lewis-Richards** ar gyfer **Llywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Arolwg o Gynllun Peilot ar gyfer Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig**'.


Mehefin 2023

Mae'r ddogfen hon yn adroddiad am yr arolwg wnaethon ni ar **Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig**. Mae'n cynnwys:

- Y pethau y daethon ni i wybod
- Ein **hargymhellion**



Mae **argymhellion** yn meddwl dweud pa gamau yn dylen ni eu cymryd i ddatrys problem.




Bydd yr adroddiad hwn yn helpu Llywodraeth Cymru benderfynu beth i'w wneud yn y dyfodol.

# Ynglŷn â’r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig



Ar bob lefel o lywodraeth mae ychydig o bobl anabl.



Mae ychydig o bleidiau gwleidyddol sy’n gwneud pethau i leihau **rhwystrau** i bobl anabl.



Mae **mynediad** yn meddwl medru cymryd rhan.

Mae **rhwystrau** yn bethau sy’n ein rhwystro rhag gwneud rhywbeth. Gall rhwystrau gynnwys arian neu’r lle y mae’r person yn byw ynddo.




Dechreuodd Llywodraeth Cymru **Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig** ar gyfer etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2021.




Roedd y **gronfa** ar gael ar gyfer pobl anabl sy’n ymgeisio mewn **etholiadau** **Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022**.



Pwrpas y **gronfa** yw gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael cymryd rhan yn y **Senedd** a'r **Llywodraeth** Leol trwy ymgeisio mewn **etholiad**.

Mae'r gronfa i dalu am bethau fel:



- Cludiant os na fedrwch chi ddefnyddio cludiant cyhoeddus fel bysiau a threnau.



- Meddalwedd rhaglen darllen sgrîn ac offer cyfrifiadurol eraill.
- Hyfforddiant ar gyfer defnyddio offer cyfrifiadurol a meddalwedd eraill.



- Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, a gwybodaeth mewn Braille, dogfennau Hawdd eu Deall a sain.



- Help personol.

## Ynglŷn â rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ffordd o weld y byd. Mae'n dweud bod pobl yn cael eu gwneud yn anabl gan **rwystrau** mewn cymdeithas, nid gan eu gwahaniaethau.



Gall y **rhwystrau** hyn gynnwys:

- Agweddau negyddol fel meddwl nad yw pobl anabl yn medru gwneud pethau.
- **Rhwystrau corfforol** fel grisiau.



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ein helpu i weld y **rhwystrau** sy'n gwneud bywyd yn fwy anodd i bobl anabl.




Nid yw pleidiau gwlediyddol bob amser yn talu am gostau personol. Mae hyn yn meddwl nad yw pobl anabl yn gallu cael cefnogaeth fel iaith arwyddion ac offer oherwydd y gost.




Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio symud y **rhwystrau** hyn.

# Ynglŷn â'r arolwg




Fe weithion ni gydag '**Opinion Research Services (ORS)**' i arolygu'r **Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig**. Fe wnaethon ni'r arolwg o Dachwedd 2022 i Fawrth 2023.



Fe ofynnon ni i bobl beth roedden nhw'n meddwl oedd yn gweithio'n dda a beth allai fod yn well.

**Ein nod oedd:**




- Deall pwrpas y **gronfa**.



- Siarad â phobl a gymerodd ran yn natblygiad y gronfa i weld a oedd yr ariannu wedi gwneud yn dda.



- Deall sut yr oedd y **gronfa'n** gweithio ar gyfer **ymgeiswyr**, cyn ac ar ôl yr **etholiadau**.


**Fe siaradon ni â:**



- Aelodau o **Lywodraeth Cymru** ac **Anabledd Cymru** oedd ynghlwm wrth ddatblygiad y gronfa.
- **Rhanddeiliaid** ac aelodau o **Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiwn Etholiadol, 'Inclusion Scotland', a Chynghorwyr Polisi**.
- **Ymgeiswyr** a ymgeisiodd am y **gronfa**.




Fe recordion ni bob cyfweliad gyda chytundeb gan bobl a gymerodd ran.




Fe gynhwyson ni y pethau y daethon ni i wybod amdanyn nhw yn yr adroddiad hwn.



Fe siaradon ni â llawer o bobl i weld beth roedden nhw'n feddwl. Barn a phrofiadau y rhai y gwnaethon ni eu cyfweld yn unig a gafodd eu recordio.

# Y pethau y daethon ni i wybod

## 1. Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig



Fe roddodd y gronfa yr **addasiadau rhesymol** yr oedd ar yr ymgeiswyr anabl eu hangen i ymgeisio mewn **etholiad**.



Mae **addasiadau rhesymol** yn newidiadau y gall lleoedd a gwasanaethau eu gwneud fel bo pawb yn medru eu defnyddio. Er enghraifft, rhoi esgynfeydd mewn adeiladau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Neu roi gwybodaeth hawdd ei deall.



Roedd hyn yn helpu i wneud pethau'n deg rhwng **ymgeiswyr** anabl ac **ymgeiswyr** nad ydynt yn anabl yn ystod yr **ymgyrch** ar gyfer yr **etholiad**.



Mae **ymgyrch** yn ffordd o ddweud wrth bobl am rywbeth pwysig. Neu i geisio newid rhywbeth, er enghraifft, polisi neu'r ffordd y mae pobl yn meddwl.



Dywedodd **ymgeiswyr** a **rhanddeiliaid** y byddai'n beth da i ddweud wrth **ymgeiswyr** am broses yr **etholiad** a'r gefnogaeth y buasen nhw'n gallu ei chael.



Dywedson nhw y gallai hyn fod yn rhan o'r broses noddi ar gyfer pobl anabl sydd â diddordeb mewn ymgeisio mewn **etholiad**.

## 2. Y pethau ddywedodd aelodau o'r Bwrdd Gwneud Penderfyniadau



Dywedodd aelodau o'r **Bwrdd Gwneud Penderfyniadau** ei bod yn hawdd ymgeisio am le ar y bwrdd.



Rhoddodd **Anabledd Cymru** gefnogaeth i bobl oedd ag angen help â'r ffurflen gais.



Dywedodd rhai aelodau o’r **Bwrdd Gwneud Penderfyniadau** eu bod wedi dod i wybod am y rôl gan **Anabledd Cymru**.



Roedd y rôl ar gyfer pobl oedd â gwahanol wybodaeth a phrofiadau.



Dywedodd rhai aelodau y dylai’r rôl gael ei hysbysebu mwy yn y dyfodol.

**Rôl aelod o’r Bwrdd Gwneud Penderfyniadau**



Cytunodd aelodau o’r **Bwrdd Gwneud Penderfyniadau** bod eu gwaith yn glir. Roedd yn rhaid iddyn nhw wirio ceisiadau a phenderfynu pa gefnogaeth a faint o arian y dylai’r **gronfa** ei roi.




Dywedodd rhai aelodau y buasai'n dda cael aelodau oedd yn barod yn gwybod am nawdd neu gynlluniau tebyg.



Roedd cael pobl â gwahanol brofiadau yn help i wneud penderfyniadau teg am geisiadau.

## 3. Cefnogi ymgeiswyr i gwblhau ffurflenni cais



Dywedodd **rhanddeiliaid** bod **Anabledd Cymru** wedi gwneud gwaith da yn helpu **ymgeiswyr** â'u ffurflenni cais. Roedd yn gwneud ansawdd y ceisiadau yn well.

**Problemau ag amser**



Dywedodd **rhanddeiliaid** bod yr amser sy'n cael ei roi ar gyfer ceisiadau yn fyr. Dim ond chwech wythnos cyn i'r **ymgyrch** ddechrau yr oedd ceisiadau yn cael eu caniatáu.



Roedd hyn yn ei gwneud hi’n anodd prosesu yr holl geisiadau mewn pryd.



Dywedodd aelodau o’r bwrdd y dylai’r amser ar gyfer ceisiadau fod yn hirach ac y dylai cefnogaeth fod ar gael yn gynnar.

Er enghraifft, gallai cefnogaeth ac offer gael ei roi cyn yr amser o chwech wythnos cyn yr **ymgyrchu**. Byddai’n:



- Rhoi mwy o amser i aelodau bwrdd brosesu ceisiadau
- Rhoi mwy o amser i **ymgeiswyr** ddysgu sut i ddefnyddio’r dechnoleg neu’r offer.
- Rhoi mwy o amser i **ymgeiswyr** ddysgu am broses yr **etholiad**.

## 4. Dilyn dull y Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn penderfynu pa gefnogaeth i'w roi




Fe ddylai bod rhestr o reolau ar gyfer y gronfa i wneud yn glir pa gefnogaeth y bydd y gronfa yn ei rhoi.




Dilyn y **Model Cymdeithasol o Anabledd** wrth ysgrifennu'r rheolau ar gyfer y ceisiadau.

## 5. Pam y mae ar bobl anabl eisiau ymgeisio mewn etholiad



Dywedodd **ymgeiswyr** yr hoffen nhw weld mwy o bobl anabl ar bob lefel o'r llywodraeth.



Roedd gan bob **ymgeisydd** y siaradon ni â nhw brofiad neu ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol.

**Rhwystrau i bobl anabl**



Roedd **ymgeiswyr** yn meddwl y byddai llawer o **rwystrau** yn eu hwynebu wrth ymgeisio mewn **etholiad**. Yr un mwyaf cyffredin oedd **rhwystrau corfforol** fel grisiau.



Doedden nhw ddim yn gallu mynd i dai pobl ar eu pennau eu hunain oherwydd **rhwystrau**.

Dyma rwystrau eraill y sonion nhw wrthyn ni amdanyn nhw:



- Methu gyrru.
- Ei chael hi'n anodd dringo grisiau i dai pobl.
- Methu cerdded am amser hir.
- Methu sefydd am amser hir i siarad â phobl.



Dywedodd **ymgeiswyr** y byddai'r **rhwystrau corfforol** hyn yn eu rhwystro rhag gwneud yn well.



Heb y **gronfa**, dywedodd rhai **ymgeiswyr** y byddai'n costio llawer mwy o arian iddyn nhw i dalu am y gefnogaeth yr oedd arnyn nhw ei hangen.



Dywedodd rhai **ymgeiswyr** y byddai pobl eraill oedd ddim yn gwybod digon am eu hanabledd yn medru gwneud pethau'n anodd iddyn nhw.

## 6. Y broses ymgeisio



Dywedodd **ymgeiswyr** eu bod wedi clywed am y gronfa trwy fudiadau fel Anabledd Cymru neu gynghorydd lleol.

**Gwybodaeth am nawdd**



Dywedodd **ymgeiswyr** ei bod yn hawdd cael **mynediad** at wybodaeth ar-lein.

Mae **mynediad** yn golygu gallu cymryd rhan.

## Cefnogaeth a chyngor



Gallai **ymgeiswyr** gael help gan **Anabledd Cymru** trwy alwad ffôn neu fideo.



Roedd cyngor a chefnogaeth i **ymgeiswyr** wedi gwneud y broses o ymgeisio yn hawdd ac y **hawdd cael mynediad ato**.




Mae **hawdd cael mynediad ato** yn meddwl y gall pawb ddod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio.



Gwnaeth y rhan fwyaf o **ymgeiswyr** wneud cais am gynorthwywyr personol a thechnoleg fel cyfrifiaduron.



Rhoddodd **Anabledd Cymru** gyngor iddyn nhw ynghylch y pethau roedd eu hangen arnyn nhw ar gyfer eu **hymgyrch**. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n hawdd i **ymgeiswyr** wybod pa gefnogaeth i wneud cais amdano.

**Addasiadau rhesymol**



Doedd **ymgeiswyr** ddim yn siŵr ynghylch **addasiadau rhesymol**.



Doedd rhai **ymgeiswyr** ddim yn glir ynghylch beth fyddai cost **ymgyrch** a beth fyddai **addasiad rhesymol** ar gyfer eu hanabledd.




Dywedodd y **Bwrdd Gwneud Penderfyniadau** y dylai bod canllaw clir ar gael ynghylch pa gostau fydd yn cael eu caniatáu yn y dyfodol.

## 7. Cefnogaeth o'r gronfa



Dywedodd pob un o'r **ymgeiswyr** y gwnaethon ni siarad â nhw eu bod wedi cael yr holl gefnogaeth neu'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth y gwnaethon nhw wneud cais amdano.



Ni allai rhai **ymgeiswyr** gael yr holl gefnogaeth oherwydd eu bod yn hwyrach yn dod i wybod am y **gronfa**. Doedd dim digon o amser rhwng gwneud cais am y **gronfa** a dechrau'r **etholiad**.



Dywedodd **ymgeiswyr** na chawson nhw beth o'r gefnogaeth yr oedden nhw wedi gofyn amdano.



Roedd pob **ymgeisydd** oedd heb gael cefnogaeth wedi cael gwybod pam na chawson nhw gefnogaeth.



Dywedodd llawer na fuasen nhw wedi medru ymgeisio yn yr **etholiad** heb y gefnogaeth roedden nhw wedi ei gael.



Cytunodd rhanddeiliaid bod rhoi'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw i **ymgeiswyr** wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w **hymgyrch**.

**Prinder amser**

Dywedodd **rhanddeiliaid** ac **ymgeiswyr** mai prinder amser oedd y **rhwystr** mwyaf i **ymgeiswyr**:



- Treuliodd **ymgeiswyr** beth o'u hamser **ymgyrchu** i ddysgu am offer newydd.



- Ni allai **ymgeiswyr** o bleidiau gwleidyddol wneud cais am nawdd nes bod cadarnhâd eu bod yn **ymgeiswyr**.



- Cafodd rhai **ymgeiswyr** eu hoffer a'u cefnogaeth ar ôl i'r **ymgyrch** ddechrau.



Awgrymodd rhai y dylai **ymgeiswyr** fedru gwneud cais am offer a chefnogaeth o flaen llaw. Byddai'n rhoi mwy o amser iddyn nhw ddod i arfer â'r offer.



Dywedodd **rhanddeiliaid** ac **ymgeiswyr** nad oedd rhoi nawdd i bwy bynnag wnaeth wneud cais gyntaf, yn beth iawn i'w wneud.



Gall rhai **ymgeiswyr** gymryd mwy o amser i gwblhau ceisiadau nag **ymgeiswyr** eraill.

**Gwneud pethau'n deg**




Dywedodd **rhanddeiliaid** ac **ymgeiswyr** bod y **gronfa** wedi helpu i wneud pethau'n fwy teg rhwng **ymgeiswyr** anabl ac **ymgeiswyr** nad ydyn nhw'n anabl.

# 8. Nawdd i ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchodedig eraill



Dywedodd **rhanddeiliaid** ac **ymgeiswyr** bod pobl sydd â **nodweddion gwarchodedig** eraill yn wynebu **rhwystrau** sy'n wahanol i rwystrau pobl anabl.







Mae **nodwedd warchodedig** yn meddwl gwahanol grwpiau o bobl a allasai gael eu trin yn annheg.

Gallai gwahanol grwpiau o bobl fod yn:

Bobl anabl

Dynion neu fenywod

Pobl o wahanol hil neu ddiwylliant

Pobl o wahanol oedrannau

Pobl wahanrywiol, pobl hoyw a phobl lesbiaidd

Pobl o wahanol grefyddau neu bobl nad oes ganddyn nhw grefydd

Menywod sy'n disgwyl babi neu fenywod gyda babi newydd

Pobl briod neu rai sydd â phartner sifil

Pobl drawsrywiol



Dywedodd pobl y dylai'r **gronfa** ganolbwyntio ar bobl anabl. Dylen ni edrych ar ffyrdd eraill o helpu **ymgeiswyr** sydd â **nodweddion gwarchodedig**.

**Rhwystrau eraill**



Dywedodd rhanddeiliaid ei bod yn bwysig meddwl am bobl oedd gyda phroblemau ag arian.



Mae pobl anabl yn ei chael hi'n anodd i gael swydd. Gall hyn gael effaith ar y maint o arian sydd ganddyn nhw.



Dywedodd rhai **rhanddeiliaid** ac **ymgeiswyr** y gallai arian gael ei roi i **ymgeisydd** nad yw'n anabl os nad oes ganddyn nhw swydd.




Dywedodd rhai pobl y gallen ni roi arian i fenywod sy'n disgwyl babi a gofalwyr.

**Gweithio gyda mudiadau gwirfoddol**



Byddai gweithio gyda mudiadau gwirfoddol yn helpu pobl anabl sydd â **nodweddion gwarchodedig** eraill.

**Cefnogi ymgeiswyr ar ôl iddyn nhw gael eu hethol**



Dywedodd **rhanddeiliaid** y dylai **ymgeiswyr** sydd wedi cael eu hethol barhau i gael cefnogaeth yn eu rôl.

**Symud o un lle i'r llall yn adeiladau'r llywodraeth**



Dywedodd **rhanddeiliaid** bod problemau **symud o un lle i'r llall** o fewn adeiladau lleol a chenedlaethol y llywodraeth.



Mae cynghorau cymunedol â problemau s**ymud o le i le** hefyd.



Gall hyn rwystro **ymgeiswyr** sydd wedi eu hethol gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.

**Gweithio gyda mudiadau eraill a phleidiau gwleidyddol**



Dywedodd **ymgeiswyr** ei bod yn bwysig gweithio gyda mudiadau ar draws Cymru i ddweud wrth bobl bod y **gronfa** ar gael.



Dywedodd **rhanddeiliaid** ei bod yn bwysig i bleidiau gwleidyddol gymryd rhan yn yr help sy’n cael ei gynnig i **ymgeiswyr** anabl.

**Nawdd parhaol**

Dywedodd **rhanddeiliaid** y dylai bod help parhaol ar gael i ddweud wrth **ymgeiswyr** am:



- Broses yr etholiad.
- Pa gefnogaeth allai fod ar gael iddyn nhw.
- Pa arian y gallan nhw wneud cais amdano.

## Rhoi mwy o amser



Dywedodd **ymgeiswyr** a **rhanddeiliaid** y dylai **ymgeiswyr** gael mwy o amser i wneud cais. Dylen nhw gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw'n gynnar.



Dywedodd aelodau y **Bwrdd Gwneud Penderfyniadau** bod arnyn nhw angen mwy o amser i brosesu ceisiadau a dod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl.

## Hysbysebu'r gronfa



Dywedodd **ymgeiswyr** a **rhanddeiliaid** ei bod hi'n bwysig hysbysebu'r gronfa yn y dyfodol. Er enghraifft, ar y cyfryngau cymdeithasol, y teledu neu'r radio.



Bydd hyn yn annog mwy o bobl i feddwl am ymgeisio mewn **etholiad**.



Dywedodd **ymgeiswyr** y dylai cynghorau lleol a phleidiau gwleidyddol hyrwyddo'r **gronfa**.

# Argymhellion allweddol

Y pethau rydyn ni'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid wneud i wneud y gronfa'n well:



1. Darparu cefnogaeth ar gyfer **ymgeiswyr** anabl sydd eisiau ymgeisio mewn **etholiad** yng Nghymru yn y dyfodol.



2. Rhoi hyfforddiant yn ymwneud a'r ffordd o ddefnyddio technoleg neu offer cefnogi eraill cyn yr **etholiad**.




3. Gwneud yn siŵr bod cefnogaeth ac arweiniad ar gael ochr yn ochr a'r nawdd.



4. Gwneud nawdd ar gael i bobl â **nodweddion gwarchodedig** eraill.

## Pethau eraill i feddwl amdanyn nhw

Gallen ni wneud pethau'n well:




- Dysgu o'r ceisiadau rydyn ni'n eu cael. Pethau fel:
    - Darparu cyngor ac arweiniad.
    - Cael B**wrdd Gwneud Penderfyniadau**.
    - Rhoi mwy o amser rhwng gwneud cais a darparu cefnogaeth.



- Cefnogi aelodau o'r **Bwrdd Gwneud Penderfyniadau** i brosesu'r ceisiadau.



- Dweud wrth y pleidiau gwleidyddol am y gefnogaeth sydd ar gael.



- Gwneud yn siŵr bod **ymgeiswyr annibynnol** yn gwybod am yr help sydd ar gael ac yn medru cael **mynediad** ato. Mae rhai **ymgeiswyr** yn annibynnol. Mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n rhan o blaid wleidyddol.



- Gwneud yn siŵr bod y gefnogaeth ar gael i bobl â'r holl wahanol anableddau.



- Cefnogi **ymgeiswyr** etholedig yn eu rôl ar bob lefel o lywodraeth.

# Geiriau anodd

### Addasiadau rhesymol

Mae addasiadau rhesymol yn newidiadau y gall lleoedd a gwasanaethau eu gwneud fel bo pawb yn medru eu defnyddio. Er enghraifft, rhoi esgynfeydd mewn adeiladau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Neu roi gwybodaeth hawdd ei deall.

### Argymhellion

Mae argymhellion yn meddwl dweud pa gamau yn dylen ni eu cymryd i ddatrys problem.

### Etholiad

Mewn etholiad mae pobl yn pleidleisio am y bobl y mae arnyn nhw eu heisiau i'w cynrychioli. Gallai fod ar gyfer y Senedd neu eich cyngor lleol.

### Hawdd cael mynediad ato

Mae hawdd cael mynediad ato yn meddwl y gall pawb ddod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio.

### Mynediad

Mae mynediad yn golygu gallu cymryd rhan.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae nodwedd warchodedig yn meddwl gwahanol grwpiau o bobl allasai gael eu trin yn annheg.

Gallai gwahanol grwpiau o bobl fod yn:

Bobl anabl

Dynion neu fenywod

Pobl o wahanol hil neu ddiwylliant

Pobl o wahanol oedrannau

Pobl wahanrywiol, pobl hoyw a phobl lesbiaidd

Pobl o wahanol grefyddau neu bobl nad oes ganddyn nhw grefydd

Menywod sy'n disgwyl babi neu fenywod gyda babi newydd

Pobl briod neu rai sydd â phartner sifil

Pobl drawsrywiol

## Rhanddeiliad

Mae rhanddeiliad yn berson sydd â diddordeb mewn rhywbeth neu sydd â chysylltiad â'r peth.

## Rhwystrau

Mae rhwystrau yn bethau sy'n ein rhwystro rhag gwneud rhywbeth. Gall rhwystrau gynnwys arian neu'r lle y mae'r person yn byw ynddo.

## Ymgeisydd

Mae ymgeisydd yn berson sy'n gofyn i bobl bleidleisio drosto mewn etholiad.